# Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

# Cynllun Cyhoeddi

Version 7.0

## RHEOLI DOGFENNAU

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl:** | **Cynllun Cyhoeddi** | | |
| **Perchennog y Ddogfen:** | **Arweinydd Tîm Cwynion/Rhyddid Gwybodaeth** | | |
| **Awdur y Ddogfen:** | **Arweinydd Tîm Cwynion/Rhyddid Gwybodaeth** | | |
| **Cyfnod Cadw:** | Tan yr adolygiad nesaf | | |
| **Dosbarth y Ddogfen:** | Swyddogol | **Lleoliad:** | Gwefan CBST |
| **Fersiwn / Statws:** | Terfynol | **Cymeradwywyd gan:** | Arweinydd Tîm Cwynion/Rhyddid Gwybodaeth |
| **Dyddiad Cyhoeddi Cyfredol:** | Ionawr 2024 | **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Ionawr 2025 |

## HANES ADOLYGU

| Dyddiad Cyhoeddi | Fersiwn / Statws | Rheswm dros Newid | Newidiwyd Gan: |
|---|---|---|---|
| Gorff. 2010 | 1 | Adolygiad | L Willis |
| Maw. 2013 | 2 | Adolygiad | L Willis |
| Gorff. 2014 | 3 | Adolygiad | L Willis |
| Ebrill 2020 | 4 | Adolygiad | C Corten |
| Ebrill 2021 | 5 | Adolygiad | C Corten |
| Ebrill 2022 | 6 | Adolygiad | C Corten |
| Ionawr 2024 | 7 | Adolygiad | C Corten |

**CYFLWYNIAD**

Dyma Gynllun Cyhoeddiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'n ofyniad gan y Ddeddf fod pob awdurdod cyhoeddus - sy'n cynnwys y Cyngor hwn - yn mabwysiadu ac yn cynnal cynllun cyhoeddi sy'n nodi'r holl wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei dal a'i chyhoeddi fel arfer. Mae Cynllun Torfaen yn seiliedig ar yr hyn a gyhoeddir eisoes ar sail reolaidd ac yn rhoi gwybodaeth am le medrir cael yr wybodaeth.

Diben y Cynllun yw gwneud yn sicr fod swm sylweddol a chynyddol o wybodaeth ar gael yn rhwydd heb fod angen i unigolion wneud cais penodol ac annog diwylliant o ddidwylledd o fewn llywodraeth leol.

SAIL Y CYNLLUN

- Cyhoeddi neu wneud ar gael mewn modd arall fel mater o drefn, wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth amgylcheddol, a gaiff ei dal gan yr Awdurdod ac sy'n dod o fewn y dosbarthiadau islaw.
- Nodi'r wybodaeth a gedwir gan yr Awdurdod ac sy'n dod o fewn y dosbarthiadau islaw.
- Cyhoeddi gwybodaeth neu ei gwneud ar gael mewn modd arall fel mater o drefn yn unol â'r datganiadau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun hwn.
- Cynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau ar gyfer gwneud y wybodaeth benodol ar gael fel mater o drefn fel y gall aelodau o'r cyhoedd ei hadnabod a'i chyrchu'n rhwydd.
- Adolygu a diweddaru'n rheolaidd, yr wybodaeth sydd ar gael gan yr Awdurdod, dan y cynllun hwn.
- Cynhyrchu rhestr o unrhyw ffioedd a godir am fynediad i'r wybodaeth, sydd ar gael yn rhagweithiol.
- Sicrhau bod y cynllun cyhoeddi hwn ar gael i'r cyhoedd.

## Dosbarthiadau gwybodaeth

**Pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud.**

*Gwybodaeth am y sefydliad, lleoliadau a chysylltiadau, llywodraethu cyfansoddiadol a chyfreithiol.*

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/AboutTheCouncil.aspx

**Beth yr ydym yn ei wario a sut yr ydym yn ei wario.**

*Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag incwm a ragwelir ac incwm gwirioneddol a gwariant, tendro, caffael a chontractau.*

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/CouncilBudgetsandSpending/AnnualAccounts/Statement-of-Accounts.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/CouncillorsAndDemocracy/Councillors-allowancesandexpenses/Councillors-Expenses-and-Allowances.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/JobsCareers/JobsattheCouncil/Pay-Policy/Pay-Policy.aspx

Caffael - Bydd tendrau yn cael eu hysbysebu ar wefan Gwerthwch i Gymru y gellir cael hyd iddi drwy roi clic ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru

**Beth yw ein blaenoriaethau a sut yr ydym yn gwneud.**

*Gwybodaeth am strategaeth a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, arolygiadau ac adolygiadau.*

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/AboutTheCouncil.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/ImprovingTorfaen/County-Plan/County-Plan-2022-2027.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/HealthSocialCare/Strategies-Reports-Legislation/Strategies-Reports-Legislation.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/Governance/Council-Governance.aspx

**Sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau.**

*Cynigion a phenderfyniadau polisi. Prosesau llunio penderfyniadau, meini prawf mewnol a gweithdrefnau, ymgynghoriadau.*

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/CouncillorsAndDemocracy/Councillors-and-Democracy.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/Get-Involved/Get-Involved.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/Governance/Council-Governance.aspx

**Ein polisïau a gweithdrefnau.**

*Protocolau ysgrifenedig presennol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau a chyfrifoldebau.*

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/Complaints/Corporate-Complaints.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/DataProtectionFreedomofInformation/FreedomofInformationAct/Freedom-of-Information.aspx

**Codi Tâl:-**

www.torfaen.gov.uk/cy/Related-Documents/Cemeteries/Fees.pdf

www.torfaen.gov.uk/cy/Business/Licensing/RoadsandHighwaysLicenses/RoadsandHighwaysLicenses.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/Libraries/Librarycharges/Library-Charges.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/RubbishAndRecycling/Householdwaste-disposalsites/Van-Permit-Scheme.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/RubbishAndRecycling/Householdwaste-domesticbins/BlackBin/Black-Bin.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/Business/CommercialWaste/Commercialwaste-informationandadvice/Commercial-Waste-Collections.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/RubbishAndRecycling/Householdwaste-specialcollectionsforlargeitems/Bulky-Household-Items-Collection-Service.aspx

www.torfaen.gov.uk/cy/Business/Licensing/RoadsandHighwaysLicenses/Skippermits/Skip-Permits.aspx

**Rhestrau a chofrestri.**

*Gwybodaeth a gedwir mewn cofrestri sy'n ofynnol gan y gyfraith a rhestrau eraill a chofrestri yn ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod.*

www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/DataProtectionFreedomofInformation/Open-Data/Open-Data.aspx

**Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig.**

*Cyngor a chyfarwyddyd, llyfrynnau a thaflenni, trafodion a datganiadau i'r wasg. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir.*

www.torfaen.gov.uk/cy/ServiceDirectory/ServiceDirectory.aspx

**Yn gyffredinol ni fydd y dosbarthiadau o wybodaeth yn cynnwys:**

- Gwybodaeth y mae ei datgelu yn cael ei atal gan y gyfraith, neu sydd wedi ei heithrio dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu sydd yn cael ei hystyried yn briodol yn wybodaeth sy'n cael ei diogelu rhag ei datgelu.
- Gwybodaeth ar ffurf drafft.
- Gwybodaeth nad yw bellach ar gael yn rhwydd gan ei bod mewn ffeiliau sydd wedi eu harchifo, neu sy'n anodd ei chyrraedd am resymau tebyg.

## Y dull y bydd gwybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn ar gael trwyddo

Bydd yr awdurdod yn dynodi yn glir i'r cyhoedd pa wybodaeth sy'n cael ei chynnwys dan y cynllun a sut y gellir cael gafael arni.

Pan fydd o fewn gallu awdurdod cyhoeddus, bydd gwybodaeth yn cael ei darparu ar wefan (www.torfaen.gov.uk). Pan fydd yn anymarferol rhoi gwybodaeth ar wefan neu pan na fydd unigolyn yn dymuno gweld y wybodaeth ar y wefan, bydd awdurdod cyhoeddus yn dynodi sut y gellir cael gwybodaeth trwy ddulliau eraill ac yn ei darparu trwy'r dulliau hynny.

Mewn amgylchiadau eithriadol gall peth gwybodaeth fod ar gael trwy ei gweld yn bersonol yn unig. Pan nodir y dull hwn, bydd manylion cyswllt yn cael eu rhoi. Bydd apwyntiad i weld y wybodaeth yn cael ei wneud o fewn amser rhesymol.

Bydd y wybodaeth yn cael ei darparu yn yr iaith y mae'n cael ei chadw ynddi neu mewn iaith arall sy'n ofynnol yn gyfreithiol. Pan fydd yn ofynnol yn gyfreithiol i awdurdod gyfieithu unrhyw wybodaeth, bydd yn gwneud hynny.

Bydd ymrwymiadau dan ddeddfwriaeth anabledd a gwahaniaethu ac unrhyw ddeddfwriaeth arall i roi gwybodaeth ar ffurf a fformatau eraill yn cael eu hufuddhau wrth roi gwybodaeth yn unol â'r cynllun hwn.

## Taliadau y gellir eu codi am wybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn

Diben y cynllun hwn yw sicrhau bod cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar gael yn rhwydd gyda chyn lleied o anghyfleustra a chost i'r cyhoedd â phosibl. Bydd y taliadau a godir gan yr awdurdod am ddeunydd a gyhoeddir yn arferol yn cael eu cyfiawnhau ac yn dryloyw ac yn cael eu cadw cyn lleied â phosibl.

Bydd deunydd sy'n cael ei gyhoeddi a'i ddarllen ar wefan yn cael ei roi yn ddi-dâl. Gellir codi tâl am wybodaeth sy'n ddarostyngedig i drefn godi tâl a nodir gan y Senedd.

Gellir codi tâl am dreuliau gwirioneddol fel:

- llungopïo
- postio a phacio
- y costau uniongyrchol o ganlyniad edrych ar y wybodaeth

Gellir codi tâl hefyd am wybodaeth a roddir dan y cynllun hwn pan fydd caniatâd i wneud hynny yn gyfreithiol, ei fod dan yr holl amgylchiadau, gan gynnwys egwyddorion cyffredinol yr hawl i fynediad at wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus, yn cael ei gyfiawnhau ac yn unol â rhestr gyhoeddedig neu restrau o ffioedd sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd.

Os codir tâl, rhoddir cadarnhad o'r taliad dyledus cyn rhoi'r wybodaeth. Gellir gofyn am daliad cyn rhoi'r wybodaeth.

**Ceisiadau ysgrifenedig**

Gellir gofyn am wybodaeth a gedwir gan awdurdod cyhoeddus nad yw wedi ei chyhoeddi dan y cynllun hwn yn ysgrifenedig, a bydd ei darparu yn cael ei ystyried yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**I gael gwybodaeth bellach am y Cynllun Cyhoeddi hwn a'i gynnwys, cysylltwch â: -**

E-bost foi@torfaen.gov.uk

Neu drwy'r post at:

Arweinydd Tîm Cwynion/Rhyddid Gwybodaeth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB